Cyllid & Thollau EM

# Bwletin y Cyflogwr

Eich llwybr i'r newyddion diweddaraf ynghylch y gyflogres

Awst 2018 Rhifyn 73

## Croeso

### Helo a chroeso i rifyn mis Awst o Fwletin y Cyflogwr

Ymhlith yr erthyglau defnyddiol yn y rhifyn hwn mae gwybodaeth ddefnyddiol am roi gwybod am wybodaeth eich cyflogres, y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, ynghyd â gwybodaeth am geir cwmni sy'n gwbl drydanol. Mae yna hefyd erthyglau sy'n sôn am weminarau Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) a Chyfraddau Treth Incwm Cymru.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio Bwletin y Cyflogwr i roi gwybod i chi am gynhyrchion newydd a newidiadau a allai effeithio arnoch, a rhoi gwybodaeth bellach i chi os bydd ei hangen arnoch. Gyda hynny mewn golwg, hoffwn eich annog hefyd i gofrestru i gael e-bost hysbysu oddi wrthym bob tro y cyhoeddir rhifyn newydd o Fwletin y Cyflogwr. Nid yw'r system e-byst hysbysu ynghlwm wrth rif cyfeirnod TWE mwyach. Mae hyn yn golygu nid cyflogwyr yn unig sy'n gallu cofrestru, a does dim cyfyngiadau ar nifer yr unigolion fesul cwmni a all gael yr e-byst hysbysu.

Gallwch wneud yn siŵr nad ydych yn methu diweddariadau yn y dyfodol drwy gofrestru i gael e-byst hysbysu newydd. Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter yn @HMRCBusiness a @hmrcgov.uk

Ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol arall yw'r diweddariadau i asiantau – bydd y rhifyn nesaf o'r diweddariadau i asiantau ar gael cyn bo hir a bydd yn rhoi arweiniad i asiantau ac ymgynghorwyr treth.

Ac yn olaf, ein nod yw gallu darparu gwybodaeth glir, gyson ac amserol, sy'n addas i gyflogwyr, ac sy'n eich helpu i gyflawni'ch rhwymedigaethau cyflogres i CThEM. Os oes gennych sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â chynnwys Bwletin y Cyflogwr, neu os hoffech iddo ymdrin â phwnc penodol, ysgrifennwch ataf yn john.berry@hmrc.gsi.gov.uk. Mae croeso mawr i'ch adborth bob amser.



**John Berry**
Golygydd

### Cynnwys

2 Rhoi gwybod am wybodaeth eich cyflogres yn gywir ac mewn pryd
3 Taliadau afreolaidd a llenwi Cyflwyniad Taliadau Llawn
3 Datganiad cyflogai newydd sy'n cychwyn ar Gyflwyniad Taliadau Llawn
3 Cytundebau Setliad TWE a Threth Incwm yr Alban
4 Y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol - ydych chi'n talu'r gyfradd gywir?
4 Cyfradd Drydanol Gynghorol ar gyfer ceir cwmni sy'n gwbl drydanol
5 Cyfraddau Treth Incwm Cymru
5 Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) - gweminarau
5 Benthyciadau i Ôl-raddedigion
6 Buddiannau a threuliau: Ceir cwmni
6 Cynlluniau benthyciadau arbed treth - setlwch nawr
6 Llenwi EYU o ran Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogai
7 Incwm o gyflogaeth: Deddfwriaeth ddrafft
8 Budd-dal Plant ôl-16 oed - dyddiad cau yn agosáu

# Rhoi gwybod am wybodaeth eich cyflogres yn gywir ac mewn pryd

Mae rhoi gwybod am wybodaeth eich cyflogres yn gywir ac mewn pryd yn bwysig iawn – mae'n helpu i sicrhau bod eich cyflogeion yn talu'r swm cywir o dreth, ac yn hanfodol i lwyddiant y Credyd Cynhwysol. Mae'r Credyd Cynhwysol wedi'i gynllunio i gynyddu buddiannau ariannol gwaith a rhoi gweithlu mwy hyblyg i chi. Gall rhoi gwybod am wybodaeth eich cyflogres yn anghywir neu'n hwyr effeithio'n negyddol ar eich cyflogeion gan fod taliadau'r Credyd Cynhwysol yn gysylltiedig â'r wybodaeth am y gyflogres yr ydych yn ei rhoi. Mae'n bwysig iawn, felly, rhoi gwybod am wybodaeth eich cyflogres yn gywir ac mewn pryd. Gall newidiadau mewn enillion effeithio ar swm y Credyd Cynhwysol y bydd eich cyflogeion yn ei gael.

Dylai'r dyddiad talu a nodwch ar eich Cyflwyniad Taliadau Llawn fod y cynharaf o'r dyddiad y telir y cyflogai, neu'r dyddiad yr oedd hawl gan y cyflogai i'r taliad hwnnw, nid dyddiad rhedeg y gyflogres, neu ddyddiad arall o'ch system gyflogres. Mae'n bwysig gwirio hwn a gwneud unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol i feddalwedd y gyflogres er mwyn sicrhau y byddwch yn defnyddio'r dyddiad cywir ar gyfer taliadau pan fyddwch yn rhoi gwybod am wybodaeth eich cyflogres. Rydym yn aml yn canfod mai dyma'r rheswm pam y codir cosb ar rai cyflogwyr. Os na allwch roi gwybod am daliadau mewn pryd, ac mae gennych esgus rhesymol dros gyflwyno'n hwyr, dylech ddefnyddio cod rheswm am roi gwybod am daliadau'n hwyr. Dylech gynnwys y cod ar gyfer pob taliad ar y Cyflwyniad Taliadau Llawn pan fo'r amgylchiadau'n berthnasol.

## Cosbau TWE – parhau â'r dull o godi cosbau ar sail risg

Mae CThEM unwaith eto wedi adolygu effeithlonrwydd y dull o godi cosbau TWE ar sail risg am gyflwyno'n hwyr. Mae wedi penderfynu parhau â'r dull hwn ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dechrau ar 6 Ebrill 2018.

Mae hyn yn golygu y bydd cosbau am gyflwyno'n hwyr yn parhau i gael eu hadolygu ar sail asesiad o risg yn hytrach na chael eu hanfon yn awtomatig. Caiff y cosbau cyntaf ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dechrau ar 6 Ebrill 2018 eu hanfon ym mis Medi 2018.

Bydd y dull hefyd yn cynnwys parhau i beidio â chodi cosbau'n awtomatig os caiff Cyflwyniad Taliadau Llawn ei gyflwyno'n hwyr (ond cyn pen 3 diwrnod o'r dyddiad talu), ac nid oes patrwm o gyflwyno'n hwyr yn rheolaidd.

Nid yw hwn yn estyniad i'r dyddiad cyflwyno statudol, sy'n dal i fod heb ei newid. Mae'n dal i fod yn ofynnol i gyflogwyr gyflwyno'u cyflwyniadau ar neu cyn pob dyddiad talu, oni bai bod yr amgylchiadau sydd wedi'u nodi yn yr arweiniad ynghylch anfon Cyflwyniad Taliadau Llawn ar ôl y diwrnod cyflog yn cael eu bodloni.

Bydd cyflogwyr sydd dro ar ôl tro'n cyflwyno ar ôl y dyddiad cyflwyno statudol, ond cyn pen tri diwrnod, yn cael eu monitro, ac efallai y cysylltir â nhw neu cânt eu hystyried am gosb cyflwyno'n hwyr.

Bydd cosbau am dalu'n hwyr hefyd yn parhau i gael eu codi ar sail asesiad o risg yn hytrach nag yn awtomatig, gan ganolbwyntio ar gosbi'r rheiny sy'n talu'n hwyr dro ar ôl tro ac sy'n cynrychioli'r risg fwyaf.

Bydd CThEM yn parhau i adolygu ei ddull o godi cosbau TWE y tu hwnt i 5 Ebrill 2019, yn unol â'r arolwg ehangach o gosbau. Bydd yn parhau i ganolbwyntio ar gosbi'r rheiny sy'n peidio â thalu erbyn y dyddiadau statudol dro ar ôl tro ac yn fwriadol, yn hytrach na'r rheiny sy'n gwneud gwallau achlysurol a dilys – gallai agwedd arall fod yn fwy addas yn yr achosion hynny.

## Negeseuon rhybuddio

Peidiwch ag anwybyddu negeseuon rhybuddio electronig y Gwasanaeth Hysbysu Generig (GNS). Bwriedir i'r negeseuon hyn fod yn wasanaeth defnyddiol i'ch hysbysu nad ydych wedi cyflwyno mewn pryd neu dalu mewn pryd. Oherwydd ein bod yn gweithredu ar sail risg, ni fyddwn, o bosibl, yn codi cosbau ym mhob achos pan nad yw cyflogwyr yn cyflwyno mewn pryd. Fodd bynnag, mae'r negeseuon electronig yn rhoi cyfle i chi adolygu'ch proses gyflwyno er mwyn gwneud yn siŵr bod pethau'n gywir yn y dyfodol.

Byddwn yn anfon neges atoch:

- unwaith mewn mis pan fyddwn yn cael Cyflwyniad Taliadau Llawn yn hwyrach na'r dyddiad talu heb reswm dilys, neu
- ar yr 11eg neu'r 12fed o'r mis pan nad ydym wedi cael Cyflwyniad Taliadau Llawn ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar y 5ed na Chrynodeb o Daliadau'r Cyflogwr yn datgan na dalwyd unrhyw gyflogeion yn ystod y mis hwnnw.

Gallwch wirio'ch negeseuon yn yr un modd ag y byddwch yn gwirio hysbysiadau codio electronig, sef naill ai drwy:

- mewngofnodi i TWE Ar-lein a dewis yr hysbysiadau generig o fewn yr adran 'Crynodeb o hysbysiadau'
- defnyddio'r Gwyliwr Bwrdd Gwaith TWE
- defnyddio'ch meddalwedd fasnachol – dylech wirio gyda'ch cyflenwr meddalwedd fod ei gynnyrch yn cydweddu â chyrchu negeseuon GNS
- cyrchu'ch Cyfrif Treth Busnes a defnyddio'r cysylltiad 'negeseuon'.

Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn edrych am unrhyw negeseuon hysbysiadau electronig y mae'n bosibl ein bod wedi'u hanfon atoch – gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a phwysig.

# Taliadau afreolaidd a llenwi Cyflwyniad Taliadau Llawn

Os bydd cyflogai'n gweithio o bryd i'w gilydd ac nid yw'n cael ei dalu'n rheolaidd (er enghraifft myfyriwr sy'n gweithio adeg ei wyliau, athro cyflenwi neu unigolyn arall sydd wedi'i gyflogi 'yn ôl yr angen') ond bod ei gontract yn parhau, dylech ddewis y dynodydd Patrwm Taliadau Cyflogaeth Afreolaidd ar bob Cyflwyniad Taliadau Llawn y byddwch yn ei lenwi ar gyfer yr unigolyn hwnnw.

Mae CThEM yn cynnal gwiriadau ac os nad yw cyflogeion wedi cael eu talu am gyfnod penodol, a bod y dangosydd taliadau afreolaidd heb ei osod, byddwn yn eu trin fel petaent wedi gadael y gyflogaeth honno.

Mae peidio â gosod y signal hwn yn gallu arwain at y canlynol:

- oedi ad-daliadau treth cyflogeion neu gyfrifo tandaliadau'n anghywir
- hawl cyflogeion i Fudd-daliadau a Chredydau yn cael ei nodi'n anghywir neu'n cael ei nodi fel petai'r hawl hwnnw wedi dod i ben
- cyflogeion yn cael mwy o gyswllt gyda chi a CThEM.

Gallai gosod y signal hwn heb angen arwain at godau treth anghywir yn cael eu hanfon at eich cyflogeion, neu dreth yn cael ei chysoni'n anghywir ar ddiwedd y flwyddyn dreth, felly mae'n bwysig bod y dynodydd yn cael ei osod yn gywir.

Os caiff eich cyflogeion eu talu o bosib;

- bob wythnos (W1)
- bob pythefnos (W2)
- bob 4 wythnos (W4)
- bob mis (M1)
- bob chwarter (M3)
- dwywaith y flwyddyn (M6), neu
- bob blwyddyn (MA)

dylech eu trin fel patrymau talu rheolaidd, a dylai'r cod perthnasol, a ddangosir mewn cromfachau, gael ei gofnodi yn y blwch 'Amlder Talu'.

Os bydd yn rhaid i chi wneud taliad unigol i gyflogai, dylech nodi 'IO' yn y blwch 'Amlder Talu'.

Dim ond os nad yw'ch patrwm talu arferol i'w gweld uchod y dylech nodi afreolaidd (IR) yn y blwch 'Amlder Talu'.

# Datganiad cyflogai newydd sy'n cychwyn ar Gyflwyniad Taliadau Llawn

Wrth lenwi datganiad cyflogai newydd ar eich meddalwedd gyflogres, https://www.gov.uk/new-employee/registering, mae'n bwysig eich bod yn sicrhau eich bod yn nodi'r cod post cywir ar gyfer eich cyflogai. Mae hyn oherwydd bod CThEM yn defnyddio'r cod post i ddilysu cyfeiriad y cyflogai.

Os ydych yn nodi cod post anghywir, gallai hyn arwain at gyfeiriad y cyflogai'n cael ei newid ar ein systemau a gohebiaeth yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad anghywir.

Gall cyfeiriad anghywir ar systemau CThEM effeithio hefyd ar allu'r Adran Gwaith a Phensiynau i anfon unrhyw Gredydau Cynhwysol sy'n ddyledus a gohebiaeth i hawlwyr.

# Cytundebau Setliad TWE a Threth Incwm yr Alban

Bydd ffurflen PSA1 y mae cyflogwyr yn ei llenwi er mwyn cyflwyno Cytundebau Setliad TWE yn newid ar gyfer blwyddyn dreth 2018 i 2019. Mae hyn er mwyn ymgorffori'r newidiadau i gyfraddau a throthwyon ar gyfer Treth Incwm yr Alban. Wrth lenwi ffurflen PSA1 ar gyfer blwyddyn dreth 2018 i 2019, gofynnir i chi p'un a yw'r Draul neu'r Buddiant ar gyfer trethdalwr sy'n byw yng ngweddill y DU (rUK) neu drethdalwr sy'n byw yn yr Alban. Bydd hyn yn eich galluogi i roi manylion Cytundeb Setliad TWE cywir i CThEM ar gyfer eich holl gyflogeion.

# Y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol - ydych chi'n talu'r gyfradd gywir?

Mae cyfraddau'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol wedi codi. Roedd gan dros ddwy filiwn o bobl hawl i gael codiad cyflog uwchben y gyfradd chwyddiant pan ddaeth y cyfraddau newydd i rym.

Os nad ydych yn talu'r gyfradd gywir, gallai CThEM anfon Hysbysiad o Dandaliad atoch, gan nodi'r ôl-ddyledion i'w talu i'ch gweithwyr ynghyd â chosb. Gallai cyflogwyr gael eu henwi'n gyhoeddus hefyd.

Rhaid i'r cyfraddau newydd gael eu defnyddio o ddiwrnod cyntaf y cyfnod cyflog cyntaf ar neu ar ôl 1 Ebrill 2018.

Mae gan y bobl ganlynol yr hawl i gael y cyfraddau canlynol:

- **25 oed ac yn hŷn –** o leiaf **£7.83** yr awr (£7.50 yr awr gynt)
- **21 i 24 oed –** o leiaf **£7.38** yr awr (£7.05 yr awr gynt)
- **18 i 20 oed –** o leiaf **£5.90** yr awr (£5.60 yr awr gynt)
- **o dan 18 oed –** o leiaf **£4.20** yr awr (£4.05 yr awr gynt).

Mae gan brentisiaid yr hawl i gael cyfradd **Prentis** o **£3.70** yr awr (£3.50 yr awr gynt) os ydynt:

- o dan 19 oed
- yn 19 oed neu'n hŷn ac ym mlwyddyn gyntaf eu prentisiaeth.

Mae gan brentisiaid 19 oed neu'n hŷn sydd wedi cwblhau blwyddyn gyntaf eu prentisiaeth, yr hawl i gael yr isafswm cyflog sy'n ymwneud â'u hoedran:

- **19 i 20 oed –** o leiaf £5.90 yr awr
- **21 i 24 oed –** o leiaf £7.38 yr awr
- **25 oed ac yn hŷn –** o leiaf £7.83 yr awr.

Mae'r Llywodraeth yn cynnal ymgyrch ar hyn o bryd sy'n cynghori gweithwyr i wirio eu cyflog a chwyno os ydynt yn cael eu talu'n anghywir.

### Gweminarau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Mae'n hawdd gwneud camgymeriad gyda'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol felly rydym wedi ei gwneud yn symlach i chi weld a ydych yn cydymffurfio â'r cyfraddau. Mae ein gweminarau newydd yn mynd â chi drwy bob cam i'w gymryd wrth gynnal y gwiriadau angenrheidiol ar gyfer yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Mae cyfres '*How to check you are paying correctly*' wedi'i dylunio i helpu cyflogwyr i gydymffurfio â deddfwriaeth yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Mae'r cyflwyniadau byr yn mynd â'r cyflogwr drwy'r broses hunanadolygu sy'n efelychu'r dull y mae CThEM yn ei ddefnyddio wrth gynnal ymholiad.

Mae tri cham i'r broses hunanadolygu: hawl i'r isafswm cyflog, diffinio mathau o waith a gwallau tandalu cyffredin. Mae gwybodaeth hefyd am sut i fynd i'r afael â thandaliad, gan gynnwys manylion sut i roi gwybod i CThEM eich bod wedi talu ôl-ddyledion os ydych am roi gwybod iddynt.

Gallwch wylio'r gweminarau ar y tudalennau sy'n cynnig help a chymorth ar gyflogi pobl ar wefan GOV.UK.

# Cyfradd Drydanol Gynghorol ar gyfer ceir cwmni sy'n gwbl drydanol

Mae CThEM bellach yn derbyn os ydych yn talu hyd at 4 ceiniog y filltir wrth ad-dalu'ch cyflogeion am deithio mewn car cwmni sy'n gwbl drydanol, nid oes elw.

Os ydych yn talu cyfradd y filltir am deithio busnes nad yw'n uwch na'r Gyfradd Drydanol Gynghorol, bydd CThEM yn derbyn nad oes elw trethadwy ac nac oes Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 i'w dalu.

Gallwch ddefnyddio'ch cyfradd eich hun sy'n adlewyrchu'ch amgylchiadau'n well os, er enghraifft, yw'ch ceir yn fwy effeithlon, neu os yw'r gost o deithio ar gyfer busnes yn uwch na'r gyfradd arweiniol. Fodd bynnag, os ydych yn talu cyfradd sy'n uwch na'r gyfradd gynghorol, ac ni allwch ddangos bod y gost drydanol y filltir yn uwch, bydd yn rhaid i chi drin unrhyw swm sydd dros ben fel elw trethadwy ac fel enillion at ddibenion Yswiriant Gwladol Dosbarth 1.

Er nad yw trydan yn cael ei ystyried yn danwydd at ddibenion treth a CYG, bydd y Gyfradd Drydanol Gynghorol yn cael ei chyhoeddi ynghyd â'r cyfraddau cynghorol o ran tanwydd sydd i'w cael yma. Bydd y gyfradd yn parhau i fod yn destun adolygiad.

# Cyfraddau Treth Incwm Cymru

### Pwy fydd yn talu cyfraddau Treth Incwm Cymru?

Telir cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) gan drethdalwr sy'n preswylio yn y DU at ddibenion treth, ac sydd â'i unig neu ei brif fan preswyl yng Nghymru am fwy o'r flwyddyn dreth nag mewn rhan arall o'r DU.

Bydd CThEM yn nodi trethdalwyr yng Nghymru ar sail gwybodaeth a ddelir yn ei systemau. Ni fydd cyflogwyr na darparwyr pensiwn yn pennu statws unigolyn fel trethdalwr yng Nghymru.

Mae statws trethdalwr yng Nghymru yn gymwys ar gyfer blwyddyn dreth gyfan, ac ni chewch fod â statws trethdalwr yng Nghymru am lai na chyfnod o flwyddyn gyfan.

O fis Ebrill 2019 ymlaen, bydd cod treth trethdalwyr, sy'n byw yng Nghymru ac sy'n gyflogedig neu'n cael pensiwn, yn dechrau â'r llythyren C. Bydd gofyn i'r rheiny sy'n llenwi Ffurflen Dreth Hunanasesiad ar-lein nodi eu gwlad breswyl arni.

### Cyhoeddir arweiniad pellach cyn cyflwyno CTIC

Dylech annog eich cyflogeion i ddefnyddio'u Cyfrif Treth Personol, https://www.gov.uk/cyfrif-treth-personol, i wirio bod gan CThEM y manylion cywir o ran eu cyfeiriad. Bydd CThEM yn rhoi gwybod am hyn i gwsmeriaid. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol petai cyflogwyr yn cadarnhau pwysigrwydd newidiadau i gyfeiriad drwy negeseuon i'w cyflogeion.

Ceir rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn yma.

# Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) - gweminarau

### CIS i gontractwyr – dydd Iau 27 Medi am 15:00

I gael rhagor o gymorth a chyngor ynglŷn â gweithio fel contractwr, gallwch gofrestru ar-lein i ymuno â darllediad byw o'r weminar CIS i gontractwyr ym mis Medi 2018. Gallwch ddysgu rhagor am sut y mae'r cynllun yn gweithio, gan gynnwys Datganiadau CIS, cadarnhau pwy ydych a didyniadau, a chael atebion i'ch cwestiynau, yn ystod y darllediad byw.

### CIS i isgontractwyr – dydd Gwener 28 Medi am 13:00

Os ydych yn gweithredu fel isgontractiwr, gallwch gofrestru ar-lein i ymuno â darllediad byw o'r weminar CIS i isgontractwyr. Yn ystod y weminar, gallwch ddysgu am gofrestru, gan gynnwys statws taliadau gros, cyfraddau didynnu a hawliadau am ad-daliadau.

Hefyd, gallwch gofrestru i gael gweminarau ac e-byst am CIS yn y dyfodol, a gallwch wylio fersiynau wedi'u recordio o weminarau ar-lein, sef CIS i isgontractwyr a CIS i gontractwyr, yn Gweminarau a negeseuon e-bost am Gynllun y Diwydiant Adeiladu.

# Benthyciadau i Ôl-raddedigion

Mae'r Adran dros Addysg wedi lansio cynnyrch newydd o ran Benthyciadau Myfyrwyr. Benthyciadau i Ôl-raddedigion (PGL) yw'r enw arno.

Ebrill 2019 yw'r dyddiad cynharaf y gall cwsmeriaid ddechrau ad-dalu'r PGL. Os oes PGL gan eich cyflogai:

- bydd CThEM yn anfon hysbysiad Dechrau Benthyciadau i Ôl-raddedigion (PGL1) newydd atoch, gan ofyn i chi ddechrau cymryd didyniadau PGL
- bydd CThEM yn anfon hysbysiad Atal Benthyciadau i Ôl-raddedigion (PGL2) newydd atoch, gan ofyn i chi roi'r gorau i gymryd didyniadau PGL
- byddwch yn casglu hyn drwy'r broses Talu Wrth Ennill (TWE) arferol.

Mae'n bosibl hefyd y bydd eich cyflogai'n agored i ad-dalu Cynllun Benthyciad Myfyriwr Math 1 neu 2 ar yr un adeg â'r PGL. Bydd CThEM yn rhoi gwybod i chi am hyn drwy barhau i anfon yr hysbysiadau Dechrau Benthyciadau Myfyrwyr (SL1) ac Atal Benthyciadau Myfyrwyr (SL2) arferol atoch, yn ogystal â'r hysbysiadau PGL1 a PGL2.

Mae CThEM yn gweithio gyda datblygwyr meddalwedd i gwblhau'r manylebau technegol.

Bydd rhagor o wybodaeth am y cynnyrch hwn yn cael ei chynnwys yn rhifyn mis Hydref o Fwletin y Cyflogwr.

# Buddiannau a threuliau: Ceir cwmni

### Rhoi gwybod am geir cwmni

Mae angen i chi anfon ffurflen P46 (Car) i CThEM os ydych:

- yn darparu ceir cwmni i'ch cyflogeion
- yn rhoi'r gorau i ddarparu car cwmni
- yn darparu car ychwanegol i rywun

Er mwyn anfon y ffurflen, gallwch wneud y canlynol:

- ei llenwi ar-lein ac anfon copi wedi'i argraffu i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen
- defnyddio gwasanaeth TWE ar-lein i gyflogwyr
- defnyddio'ch meddalwedd cyflogres fasnachol.

Bydd angen i chi hefyd roi gwybod am werth y buddiant car ar eich ffurflenni diwedd blwyddyn a thalu Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A arno.

Newid car cwmni – Os yw'ch cyflogai'n newid ei gar cwmni, ni allwch roi gwybod am hyn ar ffurflen bapur P46 (car) mwyach. Byddwch yn dal i allu rhoi gwybod am y newid ar-lein neu bydd eich cyflogai'n gallu cysylltu â CThEM er mwyn rhoi gwybod i ni am y newid hwn. Gall wneud hyn drwy fewngofnodi i'w Gyfrif Treth Personol neu ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM.

Byddwch yn dal i roi gwybod am y newid hwn gyda'ch ffurflenni diwedd blwyddyn.

# Cynlluniau benthyciadau arbed treth - setlwch nawr

Os ydych wedi defnyddio cynllun arbed treth a oedd yn talu'ch cyflogeion neu gyfarwyddwyr mewn benthyciadau er mwyn osgoi talu treth ac Yswiriant Gwladol, mae amser gennych o hyd i setlo gyda CThEM cyn i'r tâl benthyg ddod i rym ar 5 Ebrill 2019.

Gallai pobl nad ydynt yn datgan dalu mwy pan fo'r tâl benthyg yn codi.

Os ydych wedi defnyddio cynllun ond heb gofrestru eto i setlo, nid yw'n rhy hwyr. Bydd angen i chi roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen gan CThEM erbyn 30 Medi 2018.

Os ydych eisoes yn siarad â rhywun yn CThEM ynghylch defnyddio'r mathau hyn o gynlluniau, a elwir yn gydnabyddiaeth gudd, neu os oes gennych reolwr cydymffurfiad cwsmeriaid, dylech roi'r wybodaeth iddo. Os nad oes gennych berson cyswllt, dylech gysylltu drwy anfon e-bost i ca.admin@hmrc.gsi.gov.uk.

Os yw'ch busnes yn defnyddio contractwyr neu weithwyr llawrydd a allai fod wedi defnyddio cynllun, helpwch ni i roi gwybod iddynt drwy roi gwybodaeth yn eich cylchlythyrau neu ar hysbysfyrddau staff.

Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth guddiedig, y tâl benthyg a sut i setlo ar GOV.UK.

# Llenwi EYU o ran Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogai

Rydym wedi diwygio'r arweiniad https://www.gov.uk/payroll-errors/correcting-pay-or-deductions ar GOV.UK yn ddiweddar. Diben hyn yw ei wneud yn haws i'w ddeall pan fo Diweddariad Blwyddyn Gynharach (EYU), sy'n cynnwys swm negyddol o Yswiriant Gwladol Cyflogai, yn cael ei lenwi. Mae'r arweiniad newydd yn egluro –

Os yw'r gwahaniaeth yn negyddol (oherwydd gwnaethoch roi gwybod am, neu ddidynnu, gormod o Yswiriant Gwladol), bydd angen i chi hefyd osod y dynodydd ad-daliadau CYG i:

- '**Iawn**' os ydych wedi ad-dalu'ch cyflogai, neu os nad oedd ad-daliad yn ddyledus
- '**Na**' os oes dal i fod arnoch ad-daliad i'ch cyflogai (er enghraifft, oherwydd bod y cyflogai wedi gadael eich cyflogaeth).

# Incwm o gyflogaeth: Deddfwriaeth ddrafft

Ar 6 Gorffennaf cyhoeddodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth ddrafft ar gyfer nifer o fesurau sy'n ymwneud â thriniaeth Treth Incwm o gyflogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys –

## Treth Incwm: Egluro effaith y ddeddfwriaeth Trefniadau Opsiynol ar gyfer Tâl mewn perthynas â cheir a faniau trethadwy

Bwriad y ddeddfwriaeth ddrafft yw mynd i'r afael â dau anghysondeb a geir yn rheolau presennol y Trefniadau Opsiynol ar gyfer Tâl, drwy:

- sicrhau pan fo car neu fan trethadwy'n cael ei ddarparu drwy OpRA, bod y swm a ildiwyd – sy'n cael ei ystyried wrth gyfrifo'r swm sy'n hysbysadwy at ddibenion treth a CYG – yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â'r car neu fan (megis yswiriant), sydd fel arfer yn cael eu hystyried fel rhan o'r buddiant o dan reolau arferol;
- addasu gwerth unrhyw gyfraniad cyfalaf tuag at gar trethadwy pan fo'r car ar gael ar gyfer rhan o'r flwyddyn dreth yn unig.

**Daw'r newid i rym o 6 Ebrill 2019 ymlaen.**

https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-optional-remuneration-arrangements-rules-for-taxable-cars-and-vans

## Treth Incwm: Gwefru cerbydau trydanol a hybrid yn y gweithle

Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn cyflwyno eithriad o Dreth Incwm a CYG i unrhyw rwymedigaeth sy'n deillio o ddarparu cyfleusterau gwefru i gyflogeion sy'n gwefru cerbydau trydanol neu hybrid yn y gweithle, neu gerllaw, pan fo'r cyfleusterau ar gael yn gyffredinol i gyflogeion y cyflogwr. Nid yw'n cwmpasu ad-daliadau ar gyfer cyflogeion sy'n talu am wefru mewn mannau eraill.

Nid yw'r mesur hwn yn berthnasol i geir a faniau trethadwy (a godir o dan y tâl buddiant car neu fan yn y drefn honno). Mae'r rhain yn drethadwy fel buddiannau, a chaiff darparu cyfleusterau gwefru a thrydan fel costau cysylltiedig sydd eisoes yn destun eithriad ar wahân.

**Daw'r mesur i rym o 6 Ebrill 2018 ymlaen.**

https://www.gov.uk/government/publications/workplace-charging-for-all-electric-and-plug-in-hybrid-vehicles

## Newidiadau i driniaeth o ran Treth Incwm a CYG pan ddaw i gerbydau brys

Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn cyflwyno darpariaethau ar gyfer –

- ymestyn cwmpas yr eithriad presennol ar gyfer cerbydau brys fel ei fod yn cwmpasu pob taith cymudo;
- cyflwyno trefniadau trosiannol ar gyfer trethu cerbydau brys o dan y ddeddfwriaeth 'defnyddio asedion' er mwyn darparu ragor o drefniadau buddiannol ar gyfer y cyfnod 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2020;
- caniatáu cost tanwydd i gael ei heithrio o gyfrifiad treuliau ychwanegol pan nad yw'r cyflogwr wedi darparu unrhyw danwydd at ddefnydd preifat; pan gyfrannwyd at gost tanwydd ar gyfer unrhyw filltiroedd preifat; neu pan fo unrhyw ad-daliad gan y cyflogwr ar gyfer tanwydd a ddefnyddiwyd ar gyfer filltiroedd busnes yn unig.

Bydd y newidiadau deddfwriaethol a gyflwynir gan y mesur yn dod i rym yn ôl-weithredol o 6 Ebrill 2017 ymlaen. Bydd y trefniadau trosiannol ar gyfer cerbydau brys yn dod i ben ar ôl 5 Ebrill 2020.

https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-the-taxation-of-emergency-vehicles/changes-to-the-income-tax-and-national-insurance-contributions-treatment-of-emergency-vehicles

## Diddymu'r angen i wirio derbynebau ar gyfer cyfraddau graddfa meincnod

Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft hon yn golygu na fydd yn ofynnol mwyach gan CThEM i gyflogwyr wirio derbynebau wrth dalu neu ad-dalu treuliau gan ddefnyddio'r cyfraddau graddfa meincnod ar gyfer treuliau teithio caniataol. Bydd ond rhaid i gyflogwyr sicrhau bod cyflogeion yn ymgymryd â theithiau cymwys at ddibenion busnes. Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn atal cyflogwyr rhag gwirio derbynebau cyflogeion wrth ad-dalu yn y ffordd hon at ddibenion eu hunain. Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i daliadau nac ad-daliadau a wnaed o dan gyfraddau taliadau cyfradd graddfa bwrpasol neu gyfraddau ar draws y diwydiant.

**Daw’r mesur i rym ar 6 Ebrill 2019.**

https://www.gov.uk/government/publications/abolition-of-receipt-checking-for-benchmark-scale-rates-and-changes-to-overseas-scale-rates/abolition-of-receipt-checking-for-benchmark-scale-rates-and-changes-to-overseas-scale-rates

### Deddfu cyfraddau graddfa tramor

Mae cyfraddau graddfa tramor CThEM yn darparu'r symiau arweiniol uchaf ar gyfer ad-dalu, neu dalu, costau teithio caniataol i gyflogeion wrth iddynt deithio dramor ar fusnes. Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn cyflwyno'r cyfraddau graddfa tramor (OSR) consesiynol ar gyfer llety a chynnal a chadw, ar sail statudol.

Bydd OSR yn agored i'r un gofynion gwirio is â'r cyfraddau graddfa meincnod, a bydd ond angen i gyflogwyr sicrhau bod cyflogeion yn ymgymryd â theithiau cymwys at ddibenion busnes.

**Daw'r mesur i rym o 6 Ebrill 2019 ymlaen.**

https://www.gov.uk/government/publications/abolition-of-receipt-checking-for-benchmark-scale-rates-and-changes-to-overseas-scale-rates/abolition-of-receipt-checking-for-benchmark-scale-rates-and-changes-to-overseas-scale-rates

# Budd-dal Plant ôl-16 oed – dyddiad cau yn agosáu

Dylech atgoffa'ch cyflogeion os ydynt yn cael Budd-dal Plant, a bod ganddynt blentyn sy'n 16 oed ac yn aros mewn addysg neu hyfforddiant, bod angen iddynt roi gwybod i CThEM er mwyn sicrhau na fydd taliadau y maent yn eu cael ar gyfer y plentyn hwnnw'n dod i ben.

Rydym wedi anfon ffurflen Budd-dal Plant at bob rhiant sydd yn y sefyllfa hon. Yr unig beth sydd angen iddynt ei wneud yw llenwi'r ffurflen a'i phostio'n ôl atom. Fel arall, gallant roi gwybod i ni drwy ffurflen Budd-dal Plant eu Cyfrif Treth Personol.

Rhaid ein bod wedi cael, a phrosesu, pob ffurflen erbyn 30 Awst felly os ydych yn agosáu at y dyddiad hwnnw a heb roi gwybod i ni o hyd, dylech ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar **0300 200 1900**.

Am ragor o wybodaeth, ewch i https://www.gov.uk/child-benefit-16-19.